OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 2959 (Cy.277)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol a Diwygiadau Canlyniadol) (Rhif 2) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*18 Tachwedd 2003*
Yn dod i rym - -	*19 Tachwedd 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 214 o Ddeddf Addysg 2002(**1**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol a Diwygidau Canlyniadol) (Rhif 2) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 19 Tachwedd 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996(**2**);

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**3**);

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002.

(2) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau, yn ôl eu trefn, at adrannau o Ddeddf 2002 a'r Atodlenni iddi.

Cyllido ysgolion a gynhelir

3. Mae adran 45A o Ddeddf 1998, a fewnosodir gan adran 41(1)(**4**)), i fod yn effeithiol yn y cyfnod sy'n dod i ben yn union o flaen 1 Ebrill 2004 yn unig at ddibenion cyllido ysgolion mewn unrhyw flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

(**1**) 2002 p.32.
(**2**) 1996 p.56.
(**3**) 1998 p.31.
(**4**) Mae adran 41(1) i ddod i rym ar 4 Rhagfyr 2003 yn rhinwedd O.S. 2003/2961 (Cy.278) (C.108).

4. Nid yw'r diwygiad a wneir gan adran 41(2)(**5**) i adran 45(2) o Ddeddf 1998 i fod yn gymwys mewn perthynas â chyfran cyllideb ysgol ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol sy'n dechrau cyn 1 Ebrill 2004.

5. Er gwaethaf dwyn i rym y diddymiad o adran 46 o Ddeddf 1998 a'r diwygiadau canlyniadol i adrannau 49(4) a 143 o'r Ddeddf honno ac i adran 36 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(**6**) (a wnaed gan adrannau 41(3) a 215, a pharagraffau 100(1) a (2), 113 a 125 o Atodlen 21 a Rhan 3 o Atodlen 22(**7**)) nid yw—

(a) diddymiad adran 46 o Ddeddf 1998,

(b) amnewid "LEA budget or schools budget" yn lle "local schools budget" yn adran 49(4) o Ddeddf 1998,

(c) amnewid "section 45A(3)" yn lle "section 46(2)" yn y cofnod sy'n dechrau "individual schools budget" yn adran 143 o Ddeddf 1998,

(ch) diddymu'r cofnod sy'n ymwneud â chyllideb ysgolion lleol yn adran 143 o Ddeddf 1998, a

(d) amnewid "schools budget" a "Schools budget" yn lle "local schools budget" a "Local schools budget" yn is-adran (1)(a) a (3) o adran 36 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000,

i fod yn effeithiol mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2004.

Gwaharddiadau

6. Yn ystod y cyfnod sy'n dechrau ar 9 Ionawr 2004 ac sy'n dod i ben yn union cyn dechrau'r diwrnod y daw adran 52(11) i rym mewn perthynas â Chymru, mae cyfeiriadau yn adran 52 (**8**)) at ysgol a gynhelir i gael effaith fel petaent yn gyfeiriadau at ysgol a gynhelir fel y diffinnir "maintained school" yn adran 20(7) o Ddeddf 1998.

7.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os gwaherddir disgybl cyn 9 Ionawr 2004 gan bennaeth ysgol a gynhelir neu (yn ôl y digwydd) athro neu athrawes â gofal uned cyfeirio disgyblion.

(2) Er gwaethaf dwyn i rym —

(a) adran 52(1) i (6), a

(b) diddymu adrannau 64 i 68 o Ddeddf 1998 ac Atodlen 18 iddi(**9**),

mae'r darpariaethau canlynol, sef —

(i) adrannau 64 i 68 o Ddeddf 1998 ac Atodlen 18 iddi, a

(ii) Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Apelau yn erbyn Gwaharddiadau Parhaol) (Cymru) 2003(**10**),

i barhau i gael effaith, fel y bo'n briodol, mewn perthynas â gwaharddiad y mae paragraff (1) yn gymwys iddo.

(**5**) Addesir adran 41(2) gan reoliad 4 o Reoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2002, O.S. 2002/3184 (Cy.300). Daw i rym ar 4 Rhagfyr 2003 yn rhinwedd O.S. 2003/2961 (Cy.278) (C.108).
(**6**) 2000 p.21.
(**7**) Mae adrannau 41(3) a 215 (yn rhannol), a pharagraffau 100(1), (2), 113 (yn rhannol) a 125 o Atodlen 21 a Rhan 3 o Atodlen 22 (yn rhannol) i ddod i rym ar 4 Rhagfyr 2003 yn rhinwedd O.S. 2003/2961 (Cy.278) (C.108).
(**8**) Mae adran 52 i ddod i rym yn rhannol ar 9 Ionawr 2004 yn rhinwedd O.S. 2003/2961 (Cy.278) (C.108).
(**9**) Mae adrannau 64 i 68 o Ddeddf 1998 ac Atodlen 18 iddi i'w diddymu gan adran 215 o Ddeddf 2002 ac Atodlen 22 iddi ar 9 Ionawr 2004 (*gweler*O.S. 2003/2961 (Cy.278) (C.108).
(**10**) O.S. 2003/287 (Cy.39).